

YSGOL BONTNEWYDD

POLISI E-DDIOGELWCH

Rhagymadrodd

Caiff technoleg ddigidol yn yr 21g ei ystyried yn adnodd hanfodol i gefnogi addysgu a dysgu, yn ogystal â chwarae rôl bwysig ym mywydau bob dydd plant, pobl ifanc ac oedolion. O'r herwydd, mae Ysgol Bontnewydd wedi nodi'r angen i ddefnyddio technoleg ddigidol er mwyn rhoi i'n disgyblion y galluoedd digidol i gael mynediad at ddysgu gydol oes ac ychwanegu at eu cyfleoedd cyflogaeth at y dyfodol. Yn Ysgol Bontnewydd, bydd dysgwyr yn dysgu bod yn ddinasyddion digidol cydwybodol sydd yn gwneud cyfraniad positif tuag at y byd digidol o'u hamgylch and arfarnu'n feirniadol eu lle o fewn y byd digidol hwn. Byddant yn barod i wynebu'r agweddau positif a'r agweddau negyddol o fod yn ddinesydd digidol a byddant yn datblygu strategaethau ac erfynnau i'w cynorthwyo wrth iddynt ddod yn ddefnyddwyr annibynnol.

Swyddogaethau a Chyfrifoldebau:

Mae diogelwch ar lein yn agwedd bwysig o arweinyddiaeth strategol o fewn yr ysgol. Mae'r Pennaeth, Dirprwy Bennaeth, Cyd-gysylltwyr Cwricwlwm TGCh ac Athrawon yn gyfrifol am sicrhau y caiff y polisi a'r arferion eu gweithredu a'u monitro. Mae Cyd-gysylltwyr y Cwricwlwm TGCh yn gyfrifol am gyd-gysylltu diogelwch ar-lein a diweddarau'r holl staff. Mae'r Llywodraethwyr yn deall y materion yn yr ysgol o ran canllawiau a chynghor lleol a cenedlaethol. Mae Ysgol Bontnewydd wedi penodi Llywodraethwr i fod yn Llywodraethwr diogelwch ar-lein.

Diogelwch ar-lein a staff

- Bydd yr holl staff yn derbyn y wybodaeth a'r hyfforddiant diweddaraf ar faterion diogelwch ar-lein yn ôl yr angen.
- Mae'r holl staff yn ymwybodol o gyfrifoldebau unigol ynghylch diogelu plant yng nghydestun diogelwch ar-lein a gwybod am y weithdrefn adrodd ynghylch unrhyw bryderon.
- Mae'r holl staff yn ymwybodol o'r Cod Ymddygiad Proffesiynol ac Arfer ar gyfer y rhai sy'n Cofrestru gyda'r Cynghor Gweithlu Addysg.
- Mae holl aelodau'r staff yn ymwybodol y gallai eu hymddygiad ar-lein tu allan i'r ysgol effeithio ar eu rôl a'u henw da o fewn yr ysgol. Gellid cymryd camau sifil, cyfreithiol neu ddisgyblaeth os canfyddir eu bod yn dwyn anfri ar y proffesiwn neu'r ysgol, neu os ystyrir bod rhywbeth wedi tansellio hyder yn eu galluoedd proffesiynol.
- Mae'r holl staff wedi arwyddo cytundeb yr ysgol ar ddefnydd derbyniol a luniwyd yn unol â'r Cod Ymddygiad Proffesiynol (EWC).

Diogelwch ar-lein a dysgwyr:

- Rhaid i'r holl ddysgwyr gytuno ar god ymddygiad disgyblion a rhaid i ddisgyblion CA2 arwyddo cytundeb yr ysgol ar ddefnydd derbyniol. Bydd yn ofynnol i rieni disgyblion CS arwyddo ar ran eu plentyn.

- Fel rhan o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol, mae trosglwyddo dinasyddiaeth ddigidol yn gyfrifoldeb trawsgwricwlaidd. Yn ychwanegol, caiff gwersi dinasyddiaeth penodol (adnodd Llythrennedd Digidol gan Hwb) ei addysgu gan yr athrawon bob hanner tymor.
- Mae'n ofynnol i rieni/gofalwyr gydsynio i ddelweddau o'u plentyn gael eu cymryd a'u defnyddio ar-lein e.e. ar wefan yr ysgol, blogiau, YouTube, Vimeo a Trydar. Mae 'n ofynnol i rieni roi caniatâd ysgrifenedig i'r Ysgol.

Defnydd Cymunedol o'r rhyngwrwyd

- Rhaid i sefydliadau allanol sy'n defnyddio cyfleusterau digidol yr ysgol ddilyn y polisi diogelwch ar-lein.

Rheoli Seiberfwlio

- Ni chaiff Seiberfwlio (ynghyd a phob ffurf arall o fwlio) o unrhyw aelod o gymuned yr ysgol ei oddef. Rhoddir y manylion a'r gweithdrefnau ym mholisi gwrth-fwlio ac ymddygiad yr ysgol.

Rheoli Mynediad at y Rhyngwrwyd

Ebost

Mae e-bost yn gyfrwng hanfodol o gyfathrebu ar gyfer staff a disgyblion. Mae Ysgol Bontnewydd o'r farn y dylid addysgu disgyblion sut i ddefnyddio e-bost mewn ffordd bositif a chyfrifol.

- Ni all disgyblion ond defnyddio'r cyfrif e-bost sy'n gysylltiedig â'u cyfrif Gyriant Google, Hwb neu Purple Mash.
- Ni fydd staff ond yn defnyddio cyfrifon e-bost ysgol swyddogol i gyfathrebu gyda disgyblion a rhieni/gofalwyr.

Cynnwys wedi ei gyhoeddi a gwefan yr ysgol

- Manylion cyswllt ar y wefan yw cyfeiriad, e-bost a rhif ffôn yr ysgol. Ni chaiff gwybodaeth bersonol staff na disgyblion ei gyhoeddi.
- Dim ond aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth a'r athrawon y caniateir iddynt bostio ar gyfrif y wefan ysgol neu drydar.

Cyhoeddi delweddau'r dysgwyr/Lluniau camera a gymerir gan rieni/gofalwyr at ddefnydd personol

- Caiff delweddau neu fideos sy'n cynnwys disgyblion gael eu dewis a'u defnyddio'n briodol yn unol â'r polisi hwn.
- Rhaid i rieni roi caniatâd i lun camera o'u plentyn ymddangos ar-lein. Caiff y cydsyniad hwn ei ystyried yn ddilys dros y cyfnod cyfan mae'r plentyn yn mynychu'r ysgol hon. Gall rhieni/gofalwyr dynnu caniatâd yn ôl yn ysgrifenedig, ar unrhyw adeg.
- Os yw rhieni/gofalwyr yn dymuno tynnu lluniau at eu defnydd personol, bydd yr ysgol yn mynnu y cymerir lluniau camera/fideos o'u plant hwy yn unig. Ni ddylid rhannu

lluniau camera/fideos sy'n cynnwys delweddau o blant eraill ar-lein oni chaed caniatâd gan rieni'r holl blant eraill ac aelodau o'r staff sydd a wnelo a hynny.

Cyhoeddi gwaith dysgwyr

- Caiff gwaith disgybl ei ddewis a'i ddefnyddio'n briodol yn unol â'r polisi hwn.
- Rhaid i rieni roi caniatâd i waith eu plentyn ymddangos ar-lein. Rhaid ystyried bod y cydsyniad yn ddilys am y cyfnod cyfan mae'r plentyn yn mynychu'r ysgol hon. Gall rhieni/gofalwyr dynnu caniatâd yn ôl, yn ysgrifenedig, ar unrhyw adeg.

Rhwydweithio cymdeithasol a chyhoeddi personol

- Caiff disgyblion a rhieni eu cynghori ei bod yn amhriodol defnyddio llawer o wefannau rhwydweithio cymdeithasol tu allan i'r ysgol i ddisgyblion oedran cynradd. Byddwn yn cynghori rhieni trwy ein gwefan neu Nosweithiau Cwricwlwm ynghylch sut i gadw eu plentyn yn ddiogel tra maent ar lein.
- Bydd staff sy'n dymuno defnyddio cyfryngau cymdeithasol priodol gyda disgyblion fel rhan o'r cwricwlwm yn asesu risg y wefan/gwefannau cyn eu defnyddio.
- Gofynnir i ddisgyblion hysbysu staff ynghylch unrhyw achosion o seiberfwlio. Caiff pob digwyddiad ei logio'n electronig a bydd staff yn dilyn gweithdrefnau priodol.
- Caiff staff ysgol eu cynghori'n gryf i beidio ag ychwanegu'r disgyblion presennol neu o'r gorffennol o oedran ysgol fel 'ffrindiau' os defnyddiant y gwefannau hynny.

Rheoli galwadau fideo e.e. Skype, Facetime

- Rhaid diffodd pob offer galw fideo yn y dosbarth pan na chânt eu defnyddio.
- Bydd aelod o'r staff bob amser yn goruchwyllo galwadau fideo.

Rheoli technolegau sy'n datblygu:

- Caiff technolegau sy'n datblygu eu harchwilio am eu budd addysgol a chynnal asesiad risg.
- Mae'n ofynnol i staff ddefnyddio gweinydd ysgol neu gadw mewn cwmwl yn hytrach na dyfeisiau cludadwy sy'n cynnwys data personol sy'n ymwneud â staff neu ddisgyblion. (Gweler Polisi Gwarchod Data)
- Gwaherddir disgyblion rhag dod a dyfeisiau/ffonau symudol personol i'r ysgol - ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol. Caiff unrhyw ffonau a ddygir i'r ysgol eu trosglwyddo i'r athro dosbarth a'u cadw hyd ddiwedd y dydd.
- Bydd disgyblion y dyrannwyd dyfeisiau symudol iddynt at ddibenion addysgol yn dilyn protocolau ysgol a chytundebau personol.

Diogelwch system gwybodaeth

- Caiff capasiti a diogelwch systemau TGC Ysgol eu hadolygu'n rheolaidd.
- Caiff diogelu rhag firws ei reoli gan Cynnal.

- Rhaid i ddata personol a gymerir oddi ar y safle fod yn ddiogel, ei arbed yn y cwmwl rhaid i ddyfeisiau gael eu diogelu gan gyfrinair.
- Mae ffeiliau a gedwir ar rwydwaith yr ysgol yn agored i archwiliadau.

Rheoli hidlo

- Rhydd Cynnal wasanaeth hidlo ar gyfer pob llyfr Chrome, gliniaduron cyfrifiaduron pen desg ac iPads. Mae hidlo yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru fydd yn atal pob gwefan a ystyrir yn anaddas.
- Caiff newidiadau i bolisi hidlo'r ysgol eu risg asesu gan y Pennaeth a chyd-gysylltwyr TGC.
- Hysbysir yr Athro Dosbarth, Cyd-gysylltwyr TGC a'r Pennaeth o bob torri rheolau ar hidlo, os oes angen. Mae'r staff a'r disgyblion yn ymwybodol o'r weithdrefn hon.

Diogelwch Cyfrinair

- Mae staff a ddewisir yn derbyn rhwydwaith unigol ac enw defnyddiwr a chyfrinair logio i mewn Cyngor Gwynedd y gellir cael mynediad ato o bob gliniadur a chyfrifiaduron pen desg ystafell ddosbarth.
- Mae mynediad wedi ei gyfyngu i rannau o'r rhwydwaith yn unol â'r swydd ddisgrifiad.
- Gall cymhorthyddion dosbarth a chymorthyddion ADY logio i mewn gan ddefnyddio logio i mewn gan grŵp.
- Mae gan staff a disgyblion hefyd gyfrifon Gyriant Google, Hwb a Purple Mash unigol.
- Caiff disgyblion fynediad i rwydwaith yr ysgol a gwyddant mai dim ond i'w ffeiliau eu hunain y dylent gael mynediad oni cant eu hawdurdodi i wneud hynny.
- Caiff cyfrineiriau gweinyddwr eu rheoli gan Gyngor Gwynedd a'r rhwydweithiau y ceir mynediad iddynt trwy ben desg a gliniaduron.
- Ar gyfer pob system arall, caiff cyfrineiriau gweinyddu eu rheoli gan yr ysgol.

Delio â chwynion diogelwch ar-lein

- Hysbysir yr athro dosbarth, Cyd-gysylltwyr TGC neu'r Pennaeth ynghylch cwynion am gamddefnydd o'r rhyngwyd.
- Caiff pob digwyddiad ei logio a'i gadw yn y ffeil Diogelu TGC.
- Rhaid delio â chwynion diogelu yn unol â gweithdrefnau diogelu'r ysgol.

Monitro ac adolygu

- Nod y polisi hwn, a gefnogir gan Gytundebau Defnydd Derbyniol/Codau Ymddygiad yr ysgol, yw amddiffyn buddiannau a diogelwch y gymuned ysgol gyfan.
- Mae' polisi yn gysylltiedig â'r polisiau ysgol ganlynol gan gynnwys y rheini ar gyfer TGCh, Dysgu Digidol, cytundebau cartref-ysgol, polisiau Ymddygiad, Diogelu, ac ABCh.
- Lluniwyd ein polisi diogelwch ar-lein gan y Cyd-gysylltwyr TGC, gan ddilyn cyngor gan asiantaethau tu allan a Llywodraeth Cymru.

- Mae staff yr ysgol yn gweithredu'r polisi hwn o ddydd i ddydd a caiff ei fonitro gan Gyd-gysylltwyr y TGC a'r Tim Rheoli. Cyfrifoldeb y staff yw dilyn y polisi hwn.

Polisi Gwreiddiol : **Cyd-gysylltwyr TCG yr Ysgol** **07/06/18**
 I'w adolygu bob 3 blynedd fel y bernir bod angen gan gyd-gysylltwyr TGCh.

Mabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethol: **26/06/18**

Arwyddwyd: _____ **Llŷr Jones (Cadeirydd)**

Atodiad – Log Diogelu TGC /Appendix - ICT Safeguarding log

**MONITRO DIGWYDDIADAU O SEIBERFWLIO A CHAMDDDEFNYDD O DECHNOLEG GWYBODAETH
MONITORING INCIDENTS OF CYBERBULLYING AND MISUSE OF ICT TECHNOLOGY**

Monitro digwyddiadau o gamddefnyddio adnoddau TGCh/ <i>Monitoring incidents of ICT misuse</i>			
Mathau o ddigwyddiad <i>Types of incident</i>	Dyddiad / Date		
	Tymor yr Hydref <i>Autumn Term</i>	Tymor y Gwanwyn <i>Spring Term</i>	Tymor yr Haf <i>Summer Term</i>